CYMRU / WALES
PROMPT
PRactical Obstetric Multi-Professional Training
Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg

Defnyddiwch y ddolen i bostio syniadau neu awgrymiadau ar gyfer tîm PROMPT Cymru
https://forms.gle/QJGRtZydufdoXaAw9

Cylchlythyr PROMPT Cymru
Rhifyn 9 Rhagfyr 2020

MAE HYFFORDDIANT PROMPT CYMRU YN ÔL!!

Yn ystod pandemig y Coronafeirws, ataliwyd hyfforddiant PROMPT Cymru o fis Mawrth fel y gellid canolbwyntio ymdrechion ar wasanaethau hanfodol, ac ar gyfer diogelwch a llesiant staff. Trwy ymdrechion eithriadol cyfadrannau lleol, mae rhaglen hyfforddi COVID-ddiogel PROMPT Cymru wedi ailgychwyn ledled Cymru ers mis Medi, gan ganolbwyntio ar ailsefydlu cydymffurfiad o >95% erbyn Awst 2021. Mae Tîm Cenedlaethol PROMPT Cymru wedi cael y pleser o fynychu ac mae wedi bod yn ddiddorol gweld sut mae pob bwrdd iechyd wedi addasu i'r newidiadau. Cynhaliwyd hyfforddiant trwy gadw pellter cymdeithasol mewn canolfannau academaidd, ysbytai maes a hyd yn oed gwestai! Cefnogir hyfforddiant ymarferol gan offer dysgu rhithwir a baratowyd gan PROMPT Cymru ac arweinwyr lleol. Er gwaethaf yr addasiadau, mae ethos PROMPT yn dal i fod yn amlwg drwyddo draw - timau sy'n gweithio gyda'i gilydd, yn hyfforddi gyda'i gilydd!

Diweddariad PROMPT Cymru yn y Gymuned



Wrth i 2020 ddirwyn i ben, bydd Tîm Cenedlaethol PROMPT Cymru yn gwerthuso peilot PROMPT Cymru yn y Gymuned. Lansiwyd PROMPT Cymru yn y Gymuned gyda digwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr ym mis Tachwedd 2019 ac mae wedi'i dreialu ym mhob bwrdd iechyd trwy gydol 2020. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwerthusiad, byddwn yn anfon dolen iSurvey at staff cymunedol sydd wedi mynychu cwrs PROMPT Cymru yn y Gymuned lleol erbyn diwedd mis Rhagfyr. Bydd yr holiadur yn anelu at sefydlu barn gyffredinol am yr hyfforddiant a ddarperir. Bydd adborth gan staff a chyfadran yn helpu'r tîm i gwblhau'r rhaglen a diwygio'r adnoddau hyfforddi yn unol â'r argymhellion a wneir. Cynhaliwyd 33 o ddigwyddiadau hyfforddi PROMPT Cymru yn y Gymuned hyd yma ledled Cymru sydd wedi'u gwerthuso'n dda iawn gan y bydwragedd, cynorthwywyr gofal iechyd a pharafeddygon sydd wedi eu mynychu.

Bellach bydd Digwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr Cenedlaethol PROMPT Cymru yn ddigwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr Lleol

Gohiriwyd digwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr PROMPT Cymru a oedd i fod i ddigwydd ar 26 Mawrth oherwydd y cyfyngiadau a ddaeth i rym oherwydd pandemig y Coronafeirws. Bellach, mae'n bleser mawr gan Dîm Cenedlaethol PROMPT Cymru gyhoeddi bod y penderfyniad wedi'i wneud i gynnal digwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwr lleol ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r Tîm Cenedlaethol yn cynnal trafodaethau â byrddau iechyd sy'n trefnu dyddiadau, lleoliadau a chyfadran. Bydd digwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwr lleol yn digwydd ddiwedd mis Rhagfyr a'r flwyddyn newydd - 2021.

PROMPT Wales is a Welsh Risk Pool funded programme

@PROMPTWales

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
Shared Services Partnership
Welsh Risk Pool Services

Implementing PROMPT Wales

Mae adroddiad sy'n dathlu llwyddiant GIG Cymru wrth weithredu PROMPT Cymru newydd gael ei gyhoeddi. Mae angen i ni adeiladu ar hyn yn awr, gan barhau i ddysgu a gwneud gwelliannau wrth i ni anelu at ein nod o wneud genedigaeth yn fwy diogel i fenywod a babanod. *"Mae wedi bod yn fraint i mi weithio gyda thîm PROMPT Cymru i ddatblygu a gweithredu PROMPT Cymru yn genedlaethol ac mae'r adroddiad hwn yn dathlu gwaith ac ymroddiad staff mewn gwasanaethau mamolaeth ledled GIG Cymru."* Yr Athro Tim Draycott, Sefydliad Mamolaeth PROMPT ac Is-lywydd, RCOG.

Dyma rai pwyntiau allweddol ar gyfer y cyfnod 1/1/19 - 31/3/20:

- Cynhaliwyd 141 o gyrsiau PROMPT Cymru
- Mynychodd 2,710 o staff hyfforddiant PROMPT Cymru
- Mynychodd 94% o fydwragedd, 90% o feddygon obstetreg, 86% o anesthetyddion a 77% o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd ledled CymruMae 326 o hwyluswyr PROMPT Cymru gweithredol yn cydlynu ac yn cefnogi hyfforddiant PROMPT Cymru

ANEURIN BEVAN UHB NEWS –

NEWYDDION BIP ANEURIN BEVAN –
'Y Symud i Ysbyty Athrofaol y Faenor'

Llongyfarchiadau i BIP Aneurin Bevan a symudodd eu safleoedd ar y 15fed o Dachwedd i'r safle newydd yn YSBYTY ATHROFAOL Y FAENOR yng Nghwmbrân. Roedd Tîm Cenedlaethol PROMPT Cymru yn ffodus i gefnogi eu dyddiau hyfforddi PROMPT lleol cyn y symud.
Bellach, mae Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall wedi dod yn Unedau dan Arweiniad Bydwragedd.

SÊR PROPIAU!

Diolch i chi, Emma & Rochelle, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am y syniadau ar gyfer y propiau gwych hyn, sydd wedi'u hatgynhyrchu gan Jane Storey er budd ardaloedd eraill. Dyma nicers gyda llinyn wedi'u gwnïo ynddynt i efelychu prolaps y llinyn a bocs i helpu i efelychu llenwi'r bledren

Prif Hwylusydd y chwarter hwn yw

LISA GEORGE

o BIPHDd am waith briffio a dadfriffio rhagorol. Da iawn, Lisa!

Cysylltwch â Thîm Cenedlaethol PROMPT Cymru

☎ 01745 366760

✉ prompt.wales@wales.nhs.uk

Ewch i'n gwefan PROMPT Cymru newydd a gwell
www.nwssp.wales.nhs.uk/prompt-wales
i gael gwybodaeth ynghylch y rhaglen.

Datblygwyd PROMPT Cymru ar sail y rhaglen Sefydliad Mamolaeth PROMPT – gwneud Geni Plant yn fwy Diogel, Gyda'n Gilydd

Ewch i wefan Sefydliad Mamolaeth PROMPT a phorwch drwy'r adnoddau clyweledol gwych.

PROMPT Wales is a Welsh Risk Pool funded programme

@PROMPTWales

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
Shared Services Partnership
Welsh Risk Pool Services